

# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021

**YN BRESENNOL:** Mr M.A. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

M. Dodd, D. Evans, J. James, ac A. Williams

**Aelod Cymunedol:**

Y Cynghorydd Tref P. Rogers,

**Y Cynghorwyr:**

W.T. Evans (Yn lle Cynghorydd G.B. Thomas) a S.J.G. Gilasbey

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Remote Meeting - , - 2.00 - 2.40 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 14 MEHEFIN 2021.**

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2021, gan eu bod yn gywir.

**4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD P COMLEY**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Cymuned Peter Comley am ollyngiad o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ond nid pleidleisio, ar faterion yn ymwneud â Chlwb Rygbi'r Betws yn talu rhent i Gyngor Cymuned Betws.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod y cais am ollyngiad wedi ei gyflwyno am fod gan y Cynghorydd Comley fuddiant rhagfarnol a phersonol yn y mater hwn gan ei fod yn Ysgrifennydd, yn Drysorydd ac yn Drwyddedai ar gyfer Clwb Rygbi'r Betws ac yn aelod o Bwyllgor y clwb hefyd, ac felly, byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd. Gan

hynny, roedd y Cynghorydd Comley wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (f) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth:-

## **PENDERFYNWYD**

- 4.1 Caniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (f) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Peter Comley siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ond nid pleidleisio, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned y Betws mewn perthynas â materion yn ymwneud â Chlwb Rygbi'r Betws yn talu rhent i Gyngor Cymuned y Betws**
- 4.2 Caniatáu cyfnod y gollyngiad tan ddiwedd cyfnod presennol y Cynghorydd Comley yn y swydd sef yr etholiadau llywodraeth lleol ym mis Mai 2022**

## **5. ADOLYGIAD O'R POLISI DATGELU CAMARFER**

Yn unol â chofnod 5 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2021 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ynghylch y newidiadau arfaethedig canlynol i Bolisi Datgelu Camarfer cymeradwy'r Cyngor gyda'r nod o wella prosesau ac adlewyrchu profiadau diweddar:-

- Paragraff 20 newydd yn ymdrin â chwynion datgelu camarfer gan weithwyr Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol y Cyngor. *(Sylwer: Os caiff hyn ei gymeradwyo, bydd yn achosi i'r paragraffau dilynol gael eu hailrifo yn unol â hynny)*
- Newid i'r siart llif yn Atodiad A i ddangos bod y ffurflen adborth yn cael ei hanfon i'r rheiny a oedd yn datgelu camarfer gan y Swyddog Cyswllt yn hytrach na'r Swyddog Monitro
- Newid i'r ffurflen adborth gan gynnwys manylion cyswllt e-bost ar gyfer lle y dylid ei hanfon.

Gan ymateb i gwestiwn ynghylch pa mor briodol yw cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y rhestr o bobl y gellir cysylltu â nhw o fewn y Polisi, awgrymodd y Swyddog Monitro y gallai hi a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr aelodau ac yna adrodd yn ôl yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 5.1 bod y newidiadau i Bolisi Datgelu Camarfer y Cyngor yn cael eu cymeradwyo.**
- 5.2 bod adroddiad yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ynghylch pa mor briodol yw cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y rhestr o bobl y gellir cysylltu â nhw o fewn y Polisi**

**6. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**